Cais am dystiolaeth: Llythyr gan y Cadeirydd at randdeiliaid ynghylch digartrefedd Ionawr 2022

Ynglŷn â The Wallich

Mae The Wallich eisiau creu Cymru lle mae pobl yn sefyll gyda'i gilydd i gynnig gobaith, cefnogaeth ac atebion i ddod â digartrefedd i ben.

Fel elusen ddigartrefedd a chysgu allan fwyaf Cymru, mae The Wallich yn gweithredu o dan dri amcan craidd: ***cael pobl oddi ar y strydoedd; cadw pobl oddi ar y strydoedd; a chreu cyfleoedd i bobl***.

Drwy gynnal dros 70 o brosiectau amrywiol, ar draw 18 awdurdod lleol, mae The Wallich yn gweithio gyda dros 9,000 o bobl sy'n wynebu digartrefedd bob blwyddyn ar draws Cymru.

Ein hymateb

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am y gwahoddiad i rannu ein barn am y sefyllfa ddigartrefedd ddiweddaraf yng Nghymru, ac i awgrymu materion penodol y gallai'r pwyllgor ganolbwyntio arnyn nhw o ran y gwaith sydd ar y gweill am ddigartrefedd a chysgu allan.

Gweler ein hargymhellion allweddol isod gyda sylwadau pellach yn ymateb i bob cwestiwn a ofynnwyd gan y pwyllgor.

Argymhellion allweddol

Efallai y bydd y pwyllgor am ystyried y materion canlynol, fel rhan o'i waith o graffu ar Lywodraeth Cymru:

1. Cynlluniau Llywodraeth Cymru i reoli'r galw am lety dros dro yn y byr dymor, fel rhan o'r broses bontio tuag at ailgartrefu cyflym.
2. Pa mor ddibynadwy yw ystadegau lleol o ran nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain i'r awdurdodau lleol, mewn llety dros dro, ac yn cysgu allan.
3. I ba raddau y mae amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflyrau seicolegol (PIEs) a thrawma yn cael eu deall yn ddigonol a'u gwreiddio mewn gwasanaethau ar draws y sector tai a llywodraeth leol.
4. Camau a cherrig milltir allweddol yn y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, yn enwedig y ffordd orau o ymgorffori gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau â'r ddarpariaeth ddigartrefedd (gan gynnwys cyllid i wasanaethau iechyd meddwl penodedig).
5. Ffyrdd newydd o fynd i'r afael â begera ar y strydoedd, y tu hwnt i Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPOs) a throseddu.
6. Ymgorffori i Gyfraith Cymru hawl ddynol i gael tai digonol.
7. Dileu rhwystrau i gymorth fel angen blaenoriaethol, cysylltiad lleol a phrofion bwriad i sicrhau nad oes drws anghywir wrth ofyn am help.
8. Yr argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a sut gellir cynnal safonau yn y sector drwy gomisiynu sy'n atebol ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth.

Sylwadau pellach

Ein barn ar effeithiolrwydd y dull “pawb i mewn” a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ers dechrau’r pandemig a’r heriau o ran cynnal y dull hwnnw o weithredu dros y misoedd nesaf.

Teimlwn bod y dull ‘pawb i mewn’ a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ers dechrau’r pandemig wedi bod yn llwyddiant go iawn, diolch yn gyfan gwbl i waith caled ac agwedd hyderus gweithwyr rheng flaen ar draws y sector, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, a aeth allan o'u ffordd i alluogi (ac yn hollbwysig ariannu) beth bynnag oedd yn angenrheidiol i ymateb i'r sefyllfa argyfyngus. **Credwn fod y dull hwn wedi dangos yn bendant yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd digartrefedd a chysgu allan yn benodol yn cael ei drin fel y pryder iechyd cyhoeddus brys ag ydyw**, ac rydym yn benderfynol o beidio â llithro’n ôl i hen ffyrdd o weithio.

Wrth i’r pandemig barhau, rydym yn falch bod y Llywodraeth wedi parhau i fod yn ymrwymedig i gadw i ddarparu'r lefel hon o gymorth, fel mesur iechyd y cyhoedd, gan ei fod wedi golygu y gallwn barhau i gynnig cymorth i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ble bynnag a sut bynnag y maen nhw’n cyflwyno eu hunain. Mae polisïau fel angen blaenoriaethol, a phrofion ar gyfer cysylltiad lleol, profion bwriad, a hyd yn oed ‘Dim Hawl i Arian Cyhoeddus (NRPF)’ wedi’u hatal gan fwyaf, sy'n golygu ein bod wedi gallu helpu pobl i lety dros dro a pharhaol na fyddai wedi bod yn gymwys i gael y cymorth hwn yn y gorffennol. Edrychwn ymlaen at glywed cynlluniau’r Llywodraeth ar gyfer adolygu, a gobeithio, cael gwared ar y rhwystrau mympwyol hyn yn y dyfodol unwaith y daw deddfwriaeth frys y pandemig i ben.

Wrth i ni agosáu at ddwy flynedd ers i ni ddechrau’r rhaglen ‘pawb i fewn’, nodwn fod elfen bendant o syrffed yn y system, fel y gwelir yn y niferoedd cynyddol o bobl sy’n dal i fod mewn llety dros dro yn aros i gael eu hailgartrefu’n barhaol, yn ogystal â'r niferoedd cynyddol o bobl sy’n cysgu allan yn ystod y misoedd diwethaf. Mae’r rhesymau cyffredin am hyn yn ymwneud yn bennaf â diffyg opsiynau tai addas i bobl symud iddyn nhw, ac er gwaethaf rhaglenni adeiladu tai uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, mae'r galw yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad. Mae hefyd yn profi’n anoddach nag erioed i sicrhau tenantiaethau yn y sector rhentu preifat wrth i lefelau rhent barhau i godi a chodi, gan gyfrannu at yr argyfwng costau byw cynyddol.

Ar y cyfan, rydym yn cefnogi symudiad Llywodraeth Cymru tuag at fodel cymorth ailgartrefu cyflym i ddod â digartrefedd i ben, gyda'r cafeat bod angen i ni reoli'r galw sylweddol am lety dros dro yn y tymor byr. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf ar gyfer Tachwedd 2021, roedd 7,238 o bobl mewn llety dros dro, ac mae'r nifer hwn yn cynyddu'n raddol wrth i fwy o aelwydydd gyflwyno eu hunain nag sy’n cael eu symud yn llwyddiannus i gartrefi parhaol bob mis. **Bydd gwasanaethau llety dros dro sydd wedi’u gordanysgrifio a staff cymorth sy’n cael eu gorlethu ond yn ei gwneud yn anos clirio’r ôl-groniad hwn, ac mae peryglon go iawn i iechyd corfforol a meddyliol unigolion os cânt eu gadael mewn llety dros dro yn rhy hir gyda’r cymorth lleiaf.** Ac yn yr achosion gwaethaf, efallai y bydd pobl yn penderfynu y byddai'n well ganddyn nhw fywyd ar y strydoedd na gorfod aros mewn llety dros dro heb olau ym mhen draw’r twnnel. Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i atal hyn, ond ar ôl dwy flynedd flinedig yn gorfforol ac yn feddyliol, mae staff a chleientiaid yn ei chael hi’n anodd.

Ein barn am y rhesymau dros y cynnydd ymddangosiadol yn nifer y bobl sy’n cysgu allan a beth ellir ei wneud i'w wrthdroi.

Mae hyn yn peri pryder mawr i ni, yn enwedig gan fod y mesurau a gymerwyd ar frig y pandemig i bob pwrpas wedi dod â bron pob unigolyn i mewn i lety argyfwng. Mae'n frawychus gweld niferoedd cynyddol mewn dinasoedd fel Casnewydd a Chaerdydd, ond hefyd yn ystod y misoedd diwethaf mewn siroedd gwledig fel Sir Benfro a Phowys. Rhaid i awdurdodau lleol a phartneriaid ar draws y sector barhau â'u gwaith hollbwysig i sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu cefnogi i gartrefi diogel a chynaliadwy cyn gynted â phosibl. Po hiraf y gadewir pobl mewn llety dros dro heb olau ym mhen draw'r twnnel, y mwyaf tebygol ydyn nhw o benderfynu dychwelyd i fywyd ar y strydoedd, er gwaetha'r peryglon i'w hiechyd corfforol a meddyliol.

Er mwyn gwrthdroi'r cynnydd cyson hwn yn nifer y bobl sy'n cysgu allan, mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau i gefnogi pobl sy'n ddigartref yn parhau i gael eu hariannu a'u staffio'n briodol er mwyn diwallu eu hanghenion. **O'n profiad ni, mae angen i wasanaethau gael ffocws penodol ar anghenion pobl sydd wedi profi trawma cymhleth neu brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod,** gan eu bod o risg uwch, nid yn unig o ddigartrefedd, ond hefyd iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau, ac yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Rhaid cydnabod natur gyd-gysylltiedig gymhleth yr heriau hyn er mwyn cefnogi'r bobl sy'n wynebu'r peryglon mwyaf.

Ynglŷn ag ystadegau digartrefedd, mae gennym ddiddordeb hefyd ym mha mor ddibynadwy yw'r data misol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar y defnydd o lety dros dro a chysgu allan. Er nad ydym yn gweithio ym mhob awdurdod lleol, rydym yn nodi nad yw ein data mewnol wastad yn cyd-fynd â'r niferoedd y mae awdurdodau lleol yn eu nodi am gysgu allan. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y pedwar awdurdod lleol sydd wedi adrodd dim unigolion yn cysgu allan ers Tachwedd 2020 – hoffem gael sicrwydd bod Blaenau Gwent, Sir Gâr, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn cyflwyno darlun go iawn o'u sefyllfa bresennol, yn hytrach na chyflwyno ffigwr o ddim yn sgil proses gyfyng o gasglu data.

Cyn y pandemig, arweiniodd The Wallich brosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i dreialu cronfa ddata aml-asiantaeth i gofnodi gwybodaeth am bobl sy'n cysgu allan yng Nghymru. Er i'r prosiect wynebu heriau, byddem yn croesawu'r cyfle i drafod y canfyddiadau cychwynnol gyda'r pwyllgor ac i awgrymu ffyrdd o sicrhau cynrychiolaeth onest a chywir o ddata cenedlaethol ar gysgu allan yng Nghymru.

Ein hymateb i *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026* gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr amserlen a amlinellir yn y cynllun a chamau penodol o fewn y cynllun a ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor.

Fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynllun gweithredu drafft nôl ym mis Tachwedd 2021. Gallwch weld ein hymateb llawn i'r ymgynghoriad hwn fan hyn (ein hymateb i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru) Byddem yn hapus i drafod ein hymateb yn fanylach os byddai hynny'n ddefnyddiol i aelodau'r pwyllgor.

Yn fras, rydym yn gefnogol ar y cyfan i'r cynllun gweithredu lefel uchel, ac edrychwn ymlaen at weld mwy o fanylion ynglŷn â sut caiff pob cam gweithredu ei gyflawni, gan gynnwys rhai cerrig milltir ac amserlenni mwy pendant. Ar hyn o bryd rydym yn teimlo bod nifer o'r amserlenni braidd yn annelwig, a byddai'n well gennym weld rhai dyddiadau go iawn o ran pryd y gallwn ddisgwyl i gamau gael eu cymryd neu eu cwblhau. Hoffem hefyd gael tryloywder llawn ynglŷn â sut a phryd yr ymgynghorir â'r trydydd sector gydag amserlenni clir a realistig ar gyfer adborth.

Rydym yn gefnogol iawn i'r ffocws ar atal cyffredinol, sydd wedi'i dargedu ac sy'n benodol i argyfwng er mwyn sicrhau y daw digartrefedd yn beth prin, yn fyrhoedlog ac yn rhywbeth sydd ddim yn cael ei ailadrodd, ac yn cytuno mai dim ond trwy bartneriaethau effeithiol a gwaith aml-asiantaeth y bydd hyn yn bosibl. Rydym hefyd yn obeithiol y daw'r Fframwaith Canlyniadau Digartrefedd yn adnodd defnyddiol i fynnu bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol am yr ymrwymiad i roi diwedd ar ddigartrefedd, gan ein bod yn glir na all y sector tai yn unig gyflawni hyn. **Byddem yn annog y pwyllgor i gymryd rôl weithredol wrth graffu ar ddatblygiad y fframwaith canlyniadau newydd, ac ystyried hefyd sut gall Aelodau o'r Senedd gael rôl barhaus wrth fonitro perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'r fframwaith wrth symud ymlaen.**

Dim ond i ddewis un neu ddau o gamau penodol eraill sydd o ddiddordeb arbennig i ni, byddem yn annog y pwyllgor i gwestiynu ymhellach sut bydd gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cael eu halinio'n agosach â gwasanaethau digartrefedd. Rydym yn gwybod bod nifer sylweddol o'r bobl a gefnogwn yn dioddef o iechyd meddwl gwael neu'n camddefnyddio sylweddau, yn aml oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu drawma. Rydym yn ystyried y cydafiachedd hyn y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef ochr yn ochr â sefydlogi eu sefyllfa dai, er mwyn gwella eu lles cyffredinol.

Un elfen ychwanegol na roddir sylw iddi yn y cynllun gweithredu lefel uchel yw ymateb i fegera ar y strydoedd fel un o'r agweddau mwyaf gweladwy o ran ffordd o fyw ar y strydoedd. **Credwn nad yw'r hen ddulliau o fynd i'r afael â begera drwy Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPOs) a'r system cyfiawnder troseddol yn datrys y materion sylfaenol**, a galwn ar Lywodraeth Cymru i arwain atebion mwy creadigol, fel treialu trwyddedau begera. Teimlwn bod bwlch gwirioneddol yn y dystiolaeth ynglŷn â mesurau effeithiol i fynd i'r afael â begera, a hoffai The Wallich weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddysgu beth sy'n gweithio.

Ein barn am y dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2022-23 sy'n cefnogi rhoi diwedd i ddigartrefedd, yn ogystal â'r rhai sy'n cynyddu cyflenwad, argaeledd a hygyrchedd tai yn y sector cymdeithasol a phreifat.

Roeddem yn falch iawn o weld Llywodraeth Cymru yn ymestyn y codiad o £40m i'r Grant Cymorth Tai (HSG) i'r llinell sylfaen newydd o £166m y flwyddyn, gan fod hyn yn rhoi sicrwydd i'n gwasanaethau a ariennir o'r grant hwnnw.

Un nodyn bach o bryder yw er gwaetha'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cyllideb ddangosol tair blynedd am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, ni rhagwelir y bydd y Grant Cymorth Tai yn codi yn unol â chwyddiant yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Rydym yn deall bod chwyddiant a'r rhagolygon economaidd ehangach ymhell o fod yn sicr ar hyn o bryd, ond nid yw'r gost o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn debygol o aros yr un peth wrth i chwyddiant gynyddu.

Er nad ydym yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen adeiladu tai cymdeithasol, rydym wrth reswm yn cefnogi'r cynnydd i'r Grant Cymorth Tai i £310m, gan y bydd hyn yn hanfodol, nid yn unig i wireddu targed uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer tai cymdeithasol newydd yn ystod tymor cyfredol y Senedd, ond hefyd i fodloni'r galw cynyddol am gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel.

Cawn ar ddeall bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar integreiddio'r Grant Atal Digartrefedd i'r Grant Cymorth Tai ehangach, sy'n golygu y bydd y prosiectau hynny yn cael eu comisiynu yn y dyfodol gan awdurdodau lleol yn hytrach na chyfarwyddiaeth dai ganolog Llywodraeth Cymru. Ar y cyfan, rydym yn cefnogi'r egwyddor o ddatganoli'r cyllid i gynghorau er mwyn ei wario ar flaenoriaethau lleol, gyda'r cafeat ein bod yn cydnabod y gallai rhai gwasanaethau fod fwyaf effeithiol o gael eu darparu ar lefel Cymru gyfan, felly mae angen ystyried caniatáu comisiynu cydweithredol, cenedlaethol lle bo'n briodol.

Er braidd y tu hwnt i gylch gwaith y pwyllgor hwn, hoffem leisio pryder am gronfa Adran 64 y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl y trydydd sector, er ei fod wedi'i ymestyn dros dro tan fis Medi 2022, rydym yn dal i aros am gyhoeddiad am unrhyw gynllun olyniaeth ar gyfer y gronfa hon, ac ni chafwyd unrhyw fanylion yn y gyllideb ddrafft. **Credwn fod darpariaeth iechyd meddwl integredig arbenigol yn hanfodol i lwyddiant polisïau eraill fel ailgartrefu cyflym a Tai yn Gyntaf**, felly byddem yn gwerthfawrogi'r pwyllgor yn edrych ar hyn.

I gloi, rydym wrth reswm yn croesawu'r holl gymorth a ddaw wrth Lywodraeth Cymru i gefnogi pobl gyda chostau byw uwch, fel y dreth gyngor a biliau ynni. Er y bydd pwysau uniongyrchol yn heriol i bob un ohonom, bydd help gyda biliau i bobl sydd â phrofiad diweddar o ddigartrefedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i gynnal tenantiaeth lwyddiannus.

Ein barn am feysydd o flaenoriaeth o'r Papur Gwyrdd ar ddiwygio deddfwriaethol, y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei gyhoeddi yn 2022, a meysydd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt wrth graffu.

Rydym yn disgwyl yn eiddgar am Bapur Gwyrdd y Llywodraeth ar ddiwygio deddfwriaethol, ac er gwaetha'r lefel uchel o ddeddfwriaeth dai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, teimlwn bod angen gweud mwy yng Nghymru i ddod â digartrefedd i ben.

Wrth reswm, rydym yn cefnogi'r ymgyrch sy'n cael ei harwain gan Shelter Cymru, Tai Pawb a CIH Cymru, i ymgorffori i Gyfraith Cymru hawl ddynol i gael tai digonol, ac rydym yn hapus i drafod gydag aelodau'r pwyllgor sut y credwn y gallai hyn weithio'n ymarferol.

Hoffem hefyd weld cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r rhwystrau a grybwyllwyd mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf uchod: a yw Cymru yn barod i symud yn barhaol oddi wrth angen blaenoriaethol, a phrofion fel profion bwriad a chysylltiad lleol, fel y gwnaethpwyd mor llwyddiannus yn ystod y pandemig? **Teimlwn yn gryf iawn y dylai pobl gael cymorth tai lle bynnag a sut bynnag maen nhw'n cyflwyno eu hunain i'r awdurdodau**. Mae'n beth dewr iawn gofyn am help, a dylem fod yn benderfynol nad oes drws anghywir i gnocio arni. Rhaid i wasanaethau fod yn dosturiol ac yn barod i helpu, byth yn chwilio am esgusodion i wrthod cymorth neu drosglwyddo cyfrifoldeb i asiantaeth arall.

I gloi, fe wnaethom nodi â diddordeb yr ymrwymiad i edrych ar fesurau rheoli rhenti yng nghytundeb cydweithio'r Llywodraeth gyda Phlaid Cymru, ac yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Gynnig Deddfwriaethol yr Aelodau a gyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS. Rydym yn parhau i fod â meddwl agored ynglŷn â'r dull gorau o reoli lefelau rhent yn y sectorau preifat a chymdeithasol, ond fel aelodau'r pwyllgor hwn ac ar draws y Senedd, rydym am sicrhau bod cydbwysedd yn cael ei daro sy'n cynnal argaeledd digonol o dai i'w rhenti am bris fforddiadwy, heb i fuddsoddiad mewn eiddo ddod yn sbardun anfwriadol i ddigartrefedd.

Ein hymateb i'r argymhellion a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei adroddiad, Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol.

Fe wnaethom ddarllen yr adroddiad hwn gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chryn ddiddordeb, gan ei fod, i bob golwg, yn dangos bod angen i dri awdurdod lleol ddiwygio eu darpariaeth gwasanaethau digartrefedd yn sylweddol er mwyn bodloni eu holl rwymedigaethau statudol.

Mae gan yr Ombwdsmon bwerau ymchwilio neu orfodi gymharol gyfyng o ran rhwymedigaethau digartrefedd awdurdodau lleol, ac o'r herwydd, dim ond prosesau tri chyngor y gallai eu hadolygu; Caerdydd, Sir Gâr a Wrecsam. Er iddo hefyd gyhoeddi rhai argymhellion ehangach i Lywodraeth Cymru a'r 19 awdurdod arall, cynghorol yn unig yw'r rhain gan nad oedd y cyrff hyn yn destun ymchwiliad ffurfiol. **Gobeithiwn y bydd y pwyllgor yn mynd ar drywydd yr argymhellion hyn a'r cynnydd a wnaed fel rhan o'i waith craffu.** Mae'n rhaid i ni, wrth reswm, bwysleisio'r ffaith bod timau digartrefedd awdurdodau lleol sy'n gweithio ar lawr gwlad wedi bod yn bartneriaid amhrisiadwy drwy gydol y pandemig, ond yn amlwg mae angen newidiadau strwythurol ar lefel strategol i gefnogi pobl allan o ddigartrefedd ac mae angen ymchwilio ymhellach i'r methiannau a nodwyd yn yr adroddiad.

Mae gan y sector gofal safonau gofynnol cenedlaethol llym y mae'n rhaid eu cynnal a'u hadolygu'n gyson gan Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth ac i amlygu unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw oruchwyliaeth gyfatebol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai na'r bobl sy'n eu defnyddio, a galwn ar y Llywodraeth i archwilio opsiynau ar gyfer rheoleiddiwr cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar amodau byw, arferion gwaith a chomisiynu, yn ogystal â chanlyniadau tai.

Hoffwn hefyd weld mwy o bwyslais ar gomisiynu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau sy'n seiliedig ar ymchwil o ran yr hyn sy'n gweithio, gyda'r data i'w ategu. **Ym rhy aml, rydym yn gweld gwasanaethau yn cael eu comisiynu nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y sylfaen dystiolaeth bresennol** neu'n esgus cefnogi cysyniadau fel amgylcheddau sy'n seicolegol wybodus, yn hytrach nag integreiddio'r dull hwn yn llawn i ddyluniad y gwasanaeth. Mae hyn yn ei dro yn arwain at wasanaethau sy'n annigonol i ddiwallu anghenion pobl sydd wedi cael profiad o drawma, neu sydd wedi'u siomi gan wasanaethau cymorth yn y gorffennol.

Mae'r Ombwdsmon yn gwneud achos cryf yn ei adroddiad dros greu rôl rheoleiddiwr tai yng Nghymru, i ychwanegu gwerth i ddatblygiad prosesau digartrefedd ac i fynnu bod awdurdodau lleol yn atebol. Fe wnaethom awgrymu y byddai angen swyddogaeth o'r fath i gynnal y fframwaith canlyniadau digartrefedd newydd, fel rhan o'n galwad am gomisiynu atebol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ein Maniffesto yn 2021. Efallai y bydd y pwyllgor hwn yn awyddus i ymchwilio i rôl bosib rheoleiddiwr tai, ac y byddem yn croesawu'r cyfle i rannu ein barn, a barn y bobl a gefnogwn, o ran cylch gorchwyl corff o'r fath.